# Lefel 1/Lefel 2 TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

| |
|---|
| Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026. |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno gwybodaeth a sgiliau ymarferol sector-benodol i ddysgwyr sy'n eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu brentisiaethau, gan feithrin datblygiad personol ac ymgysylltu drwy ddysgu cymhwysol. |
| Cod Cymhwyster CBAC | 5689QA |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14-16, 16-19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TAAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi’u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw’r unig gorff dyfarnu sy’n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o’r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae’n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14-16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn unedol, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw’n ei gyflawni drwy gydol y cwrs. Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol wedi'u cynllunio er mwyn asesu gwybodaeth sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster gan helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hyrwyddo profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys


Crynodeb o'r asesu ........ 5
1.Cyflwyniad ........ 7
1.1. Pwrpas a nodau ........ 7
1.2. Cwricwlwm i Gymru ........ 8
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 9
1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) ........ 9
1.5. Y defnydd o iaith ........ 9
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 10
2.Unedau ........ 11
2.1. Fformat yr unedau ........ 11
2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 11
Uned 1 Cyflwyniad i'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg ........ 13
Uned 2 Offer, prosesau a sgiliau rhag-gynhyrchu ........ 23
Uned 3 Offer, prosesau a sgiliau cynhyrchu a rhag-gynhyrchu ........ 30
3. Asesu ........ 37
3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau ........ 37
3.2. Trosolwg o'r asesu ........ 38
3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad ........ 39
3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u marcio gan ganolfannau ........ 40
4.Gwybodaeth dechnegol ........ 42
4.1. Cofrestriadau unedau ........ 42
4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ........ 42
4.3. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 43
4.4. Ailsefyll asesiadau unedau ........ 43
4.5. Ailwneud y cymhwyster ........ 44
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 45
Atodiad B: Isafswm yr adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r cymhwyster ........ 48


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg<br>Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Adran A: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, 25 marc<br>Adran B: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol, 25 marc |
| Uned 2: Offer, prosesau a sgiliau rhag-gynhyrchu<br>Asesiad di-arholiad: 14 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>58 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff cleient penodol a phum tasg.<br>Bydd briff y cleient ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd briff y cleient yn newid bob tair blynedd.<br>Bydd dysgwyr yn dewis **un** cynnyrch y cyfryngau o ddewis o un ar ddeg. |
| Uned 3: Offer, prosesau a sgiliau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu<br>Asesiad di-arholiad: yr amser sy'n cael ei argymell yw 32 awr<br>60% o'r cymhwyster<br>90 marc |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan Ganolfannau a'i gymedroli yn allanol gan CBAC.<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff cynhyrchu penodol a thair tasg.<br>Bydd briff y cleient ar gael drwy Porth CBAC a bydd yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb.<br>Bydd dysgwyr yn dewis **un** digwyddiad o ddewis o dri a byddant bob amser yn cynhyrchu ymgyrch hyrwyddo amlfodd ar gyfer y digwyddiad a ddewisir.<br>Rhaid i'r ymgyrch hyrwyddo gynnwys un elfen glyweledol/sain a naill ai un elfen ryngweithiol neu un elfen ddylunio graffeg/gyhoeddi. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys **tair uned orfodol**.

Y drefn addysgu ar gyfer y cymhwyster hwn yw Uned 1, wedyn Uned 2, wedyn Uned 3. Mae Uned 1 yn uned ragarweiniol ac mae Uned 3 yn uned synoptig.

Bydd Uned 1 a 2 ar gael o fis Ionawr 2028, a bydd Uned 3 ar gael o haf 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1.Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Maent yn cynnig cynnwys ac asesiad deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae cymwysterau TAAU yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant, neu fyd gwaith.

Mae TAAU CBAC yn:

- darparu sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys astudiaeth alwedigaethol ar Lefel 1 i 3 fel y bo'n briodol
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, gyda phwyslais ar sgiliau ymarferol
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu mewn ffyrdd perthnasol, gafaelgar ac ystyrlon, gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu:
  - sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
  - y sgiliau cyfannol a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
  - dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn y byd gwaith
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i Ddysgwyr ymwneud ag agweddau perthnasol ar themâu trawsgwricwlaidd:
  - cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
  - amrywiaeth
  - hawliau dynol
  - Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)
- cydnaws â lefel 1 a 2 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

Nod TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg yw:

- hybu dealltwriaeth o'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys y sector a'i gynhyrchion, rolau swydd a chyfrifoldebau, materion moesegol a chyfreithiol ac effaith technoleg
- datblygu sut i ddefnyddio a chymhwyso amrywiaeth o sgiliau creadigol a thechnegol ar draws prosesau creadigol rhag-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio, trefnu a chyfathrebu o fewn cyd-destun cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg
- hybu ymwybyddiaeth o gwmnïau o Gymru yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg a'u cyfraniad at economi Cymru
- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach, prentisiaethau neu gyflogaeth mewn cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r cynllun hwn y mae'r egwyddorion cynnydd, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad Y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 25; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Y Celfyddydau Mynegiannol[1] gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - datblygu sgiliau a gwybodaeth greadigol i arddangos rheolaeth mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol
  - datblygu eu gallu i werthfawrogi ac adfyfyrio ar waith creadigol pobl eraill yn ogystal â'u doniau creadigol eu hunain, er mwyn ysbrydoli a thanio'r dychymyg
  - casglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o dystiolaeth
  - archwilio Cymru a'i thraddodiadau, hanes a diwylliannau unigryw ac amrywiol a datblygu eu hunaniaeth eu hunain fel pobl greadigol yng Nghymru
  - datblygu'r gallu i adfyfyrio drwy ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o sut a pham y caiff gwaith creadigol ei ddatblygu a'i greu
  - datblygu sgiliau pwysig mireinio a dadansoddi a'u cymhwyso i'w datblygiad creadigol
  - nodi sut gallant wella eu gwaith creadigol ac ymateb i adborth gan eraill.

- cefnogi egwyddorion cynnydd Y Celfyddydau Mynegiannol[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, i ehangder a dyfnder cynyddol, gan eu galluogi i ddod yn unigolion hyderus, chwilfrydig a chreadigol
  - datblygu sut i ddefnyddio a chymhwyso amrywiaeth o sgiliau technegol, gydag annibyniaeth a soffistigeiddrwydd cynyddol, er mwyn gallu datrys problemau a nodi atebion yn y broses greadigol
  - archwilio, dadansoddi, creu, mireinio a chyfleu syniadau creadigol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, cyd-destunau a dibenion
  - datblygu amrywiaeth o sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio, cyfathrebu a chydweithio, a fydd yn eu cefnogi i ddod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
  - ymgysylltu'n gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol yn y broses greadigol, i feithrin eu llesiant, eu hunan-barch a'u gwydnwch, gan eu helpu i ddod yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed. Efallai y bydd dysgwyr wedi cwblhau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) yn y pwnc cyn dechrau'r cwrs hwn, a all gefnogi eu parodrwydd a'u dilyniant ymhellach.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'n darparu sail addas ar gyfer dilyniant i astudiaeth bellach ar lefelau 1 i 3 megis Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau Lefel 3 ac i brentisiaethau yn y sector creadigol, dylunio a'r cyfryngau megis Prentis Marchnata Lefel 3. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Lluniwyd y cymhwyster TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae maint y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o'r ganran ddisgwyliedig o ODA y gallai fod ei hangen ar gyfer pob uned.

| | Pwysoliad | ODA |
|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 24 awr |
| Uned 2 | 20% | 24 awr |
| Uned 3 | 60% | 72 awr |
| **Cyfansymiau** | **100%** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Cyfanswm Amser Cymhwyso'r cymhwyster hwn yw rhwng 140 a 180 awr. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhwng 120 a 140 o oriau dysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 20-40 o oriau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy’r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael ar www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2.Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | Mae'n nodi'r cyfraniad y mae'r uned hon yn ei wneud i radd ar gyfartaledd y cymhwyster. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu allweddol, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Testunau | Mae'n rhestru'r testunau y bydd dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'r uned. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dulliau asesu ar gyfer yr uned. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Manylion y deunyddiau, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio y mae eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.<br><br>Ni fydd asesu uniongyrchol o'r profiadau. |

## 2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn i ddangos dyfnder disgwyliedig y dysgu.

Mae ‘Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o’ yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen ar ddysgwyr ymwybyddiaeth gyffredinol yn unig o'r cynnwys dan sylw, heb ddealltwriaeth fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at ddogfennau Canllawiau Addysgu am ganllawiau manylach ar ddyfnder a chwmpas.

Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r cynnwys.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn nodi y dylai dysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys y gallu i gymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd, neu ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.

Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol neu ddangos cymhwyso sgiliau ymarferol a thechnegau.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob testun, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

DRAFT

# Uned 1 Cyflwyniad i'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg

| | |
|---|---|
| ODA | 24 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r sector cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg yn arloesol ac yn esblygu'n gyflym. Mae'n cwmpasu meysydd megis ffilm, teledu, creu cynnwys digidol, animeiddio, a chyfryngau rhyngweithiol, gan gyfuno gweledigaeth artistig â thechnoleg arloesol i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ledled y byd.<br><br>Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r sector yng Nghymru. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am strwythurau, rolau ac arferion y sector, ochr yn ochr ag ystyriaethau moesegol, cyfreithiol a thechnolegol. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau yn cael eu llunio gan bwrpas, cynulleidfa a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Mae'n cefnogi llwybrau i astudiaeth bellach, prentisiaethau a chyflogaeth drwy feithrin:<br>• Dealltwriaeth o strwythurau'r diwydiant a dynameg cynulleidfaoedd.<br>• Ymwybyddiaeth o gyfraniadau diwylliannol ac economaidd Cymru.<br>• Hyblygrwydd i newid technolegol ac ymarfer moesegol.<br><br>Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon wedi'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach yn y maes creadigol a'r cyfryngau, gyda sylfaen gadarn mewn gwybodaeth am y diwydiant, ymwybyddiaeth ymarferol, a sgiliau at y dyfodol. |
| Testunau | 1.1 Y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg yng Nghymru<br>1.2 Gweithio yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg<br>1.3 Ystyriaethau moesegol a chyfreithiol yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg<br>1.4 Datblygiadau yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg |
| Crynodeb o'r asesu | Prawf sector ysgrifenedig 1 awr<br>50 marc<br>Adran A: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, 25 marc<br>Adran B: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol, 25 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad.<br>Dylai canolfannau sy'n cofrestru dysgwyr ar gyfer asesiad ar y sgrin gyfeirio at wefan CBAC am wybodaeth ar unrhyw ofynion system:<br>https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/e-asesu/ |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol<br>Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru. |

## Cynnwys

| 1.1 Y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg yng Nghymru | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Sectorau creadigol a'r cyfryngau a'u cynhyrchion<br>1.1.2 Pwrpas a chynulleidfa darged cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau<br>1.1.3 Tirwedd greadigol a'r cyfryngau Cymru | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.1.1<br>Sectorau creadigol a'r cyfryngau a'u cynhyrchion | Dylai dysgwyr wybod am wahanol sectorau'r diwydiant creadigol a'r cyfryngau a'r hyn maen nhw fel arfer yn ei gynhyrchu:<br>• Ffilm, gan gynnwys:<br>  ◦ prif ffilmiau<br>  ◦ ffilmiau byr<br>  ◦ rhaglenni dogfen<br>• Teledu, gan gynnwys:<br>  ◦ rhaglenni cyfres<br>  ◦ cyfresi dogfennol<br>  ◦ newyddion<br>  ◦ cyfresi cyfyngedig<br>  ◦ rhaglenni realiti<br>• Radio (cynnwys byw ac wedi'i recordio ymlaen llaw), gan gynnwys:<br>  ◦ rhaglenni radio cerddoriaeth<br>  ◦ rhaglenni radio sgwrs<br>  ◦ podlediadau<br>• Cylchgronau, gan gynnwys:<br>  ◦ cyhoeddiadau ar-lein<br>  ◦ cyhoeddiadau print<br>• Newyddion, gan gynnwys:<br>  ◦ cyhoeddiadau ar-lein<br>  ◦ cyhoeddiadau print<br>  ◦ cynnwys cyfryngau cymdeithasol<br>• Gemau Fideo, gan gynnwys:<br>  ◦ gemau consol<br>  ◦ apiau symudol<br>  ◦ gemau cyfrifiadur personol<br>  ◦ rhithrealiti<br>  ◦ gemau cyfryngau cymdeithasol<br>• Hysbysebu a marchnata yn hyrwyddo cynhyrchion, gwasanaethau, neu achosion, gan gynnwys: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | <ul><li><ul><li>hysbysebion teledu a radio</li><li>ymgyrchoedd ar-lein</li><li>ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol</li><li>posteri</li></ul></li><li>dweud stori brand<ul><li>hysbysebu dylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol.</li></ul></li></ul>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>bod cynnwys cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau yn cael ei effeithio gan:<ul><li>y fformatau a ddefnyddir i'w cynhyrchu: megis, print, ar-lein, clyweledol gan gynnwys ffurf fer neu hir, byw neu wedi'i recordio</li><li>lefel y rhyngweithio â'r gynulleidfa</li><li>llwyfannau dosbarthu, gan gynnwys sinema, teledu, radio, print, cyfryngau cymdeithasol a chyfranogol, a llwyfannau ffrydio</li></ul></li><li>natur amlfodd cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<ul><li>bod cynhyrchion y cyfryngau yn aml yn cyfuno gwahanol foddau megis testun, delweddau, sain a chlyweledol</li><li>sut gall amlfoddau gefnogi cyfathrebu effeithiol</li><li>sut gall amlfoddau gyfoethogi ymgysylltiad cynulleidfa</li></ul></li><li>enghreifftiau o amlfoddau ar draws gwahanol lwyfannau</li></ul> |
| 1.1.2<br>Pwrpas a chynulleidfa darged cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau | Dylai dysgwyr ddeall gwahanol bwrpasau cynhyrchion sydd wedi'u cynhyrchu gan y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<ul><li>hysbysu</li><li>cynghori</li><li>diddanu</li><li>addysgu</li><li>perswadio</li><li>codi ymwybyddiaeth</li><li>hyrwyddo a hysbysebu</li><li>hwyluso neu hyrwyddo cysylltiad rhyngbersonol.</li></ul>Dylai dysgwyr wybod pam bod cynhyrchwyr yn creu cynnwys, megis:<ul><li>mynegiant creadigol a dweud stori mewn modd artistig</li><li>cyflawni amcanion masnachol megis cynhyrchu elw neu adeiladu brand</li><li>cyflawni briff cleient neu broject penodol</li><li>hyrwyddo neges, achos, neu ymgyrch gymdeithasol</li><li>cyrraedd cynulleidfaoedd newydd neu wedi'u targedu</li><li>cyfrannu at ddeialog a dadl ddiwylliannol, gymdeithasol neu wleidyddol.</li></ul>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<ul><li>sut mae pwrpas yn dylanwadu ar gynhyrchion a gynhyrchir gan y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:</li></ul> |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • arddull, cywair a fformat cynnwys creadigol a'r cyfryngau<br>• y dewisiadau y mae cynhyrchwyr creadigol a'r cyfryngau yn eu gwneud wrth greu a dosbarthu cynhyrchion<br>• cylchred cynhyrchwr-ddefnyddiwr y cyfryngau, gan gynnwys:<br>  • ystyr y term cynhyrchwr-ddefnyddiwr<br>  • sut mae cynulleidfaoedd yn dehongli ac yn ymgysylltu â gwahanol gynhyrchion creadigol a'r cyfryngau<br>  • sut gall defnyddio a chreu'r cyfryngau ddigwydd ar yr un pryd, yn enwedig ar lwyfannau cymdeithasol a chyfranogol megis YouTube, TikTok ac Instagram<br>  • nad yw cynulleidfaoedd bob amser yn oddefol; maent hefyd yn cynhyrchu, yn rhannu ac yn rhyngweithio â chynnwys yn weithredol<br>  • y cylchred parhaus o wylio, creu, a rhannu cyfryngau<br>  • sut mae'r cylchred cynhyrchwr-ddefnyddiwr wedi effeithio ar y dirwedd greadigol a'r cyfryngau<br>  • bod cynnwys y cyfryngau yn cael ei lunio fwyfwy gan dueddiadau, adborth cynulleidfaoedd, a chyfranogiad defnyddwyr.<br><br>Dylai dysgwyr wybod beth yw cynulleidfa darged.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae cynulleidfaoedd targed yn cael eu categoreiddio, gan gynnwys:<br>  • oedran<br>  • lleoliad<br>  • addysg<br>  • rhywedd<br>  • incwm<br>  • ffordd o fyw a diddordebau<br>  • cefndir diwylliannol<br>  • arferion defnyddio'r cyfryngau<br>• sut i adnabod cynulleidfaoedd targed gan ddefnyddio offer megis demograffeg a seicograffeg<br>• sut mae cynhyrchwyr yn gwneud dewisiadau ynghylch cynhyrchu, hyrwyddo a dosbarthu i dargedu gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys:<br>  • fformat<br>  • llwyfannau dosbarthu<br>  • dewisiadau ynghylch cynnwys, megis:<br>    • llunio cynrychioliadau<br>    • defnyddio codau a chonfensiynau genre<br>    • tôn<br>    • arddull<br>• bod cynulleidfaoedd yn defnyddio cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau mewn gwahanol ffyrdd, yn seiliedig ar y canlynol:<br>  • dyheadau ac anghenion y gynulleidfa |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • llwyfannau dosbarthu, gan gynnwys sinema, teledu, radio, print, cyfryngau cymdeithasol a chyfranogol, a llwyfannau ffrydio. |
| 1.1.3<br>Tirwedd greadigol a'r cyfryngau Cymru | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:<br>• tueddiadau creadigol a'r cyfryngau a thwf y diwydiannau hyn yng Nghymru<br>• bod y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau yng Nghymru yn amrywio yn ôl rhanbarth a bod rhanbarthau'n datblygu sgiliau arbenigol ac yn canolbwyntio ar wahanol fathau o gynhyrchu creadigol a'r cyfryngau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod:<br>• enghreifftiau o gwmnïau creadigol a'r cyfryngau yng Nghymru, er enghraifft:<br>  ◦ Boom Cymru<br>  ◦ ITV Cymru<br>  ◦ Media Cymru<br>ac enghreifftiau o'u cynhyrchion.<br>• sut mae lleoliadau a thirnodau Cymru yn cael eu defnyddio mewn gwaith creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<br>  ◦ fel lleoliadau ffilmio ar gyfer sioeau teledu a phrif ffilmiau<br>  ◦ mewn deunyddiau marchnata ac ymgyrchoedd hyrwyddo.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall cylch gwaith a phwrpas y darlledwr cyhoeddus Cymraeg S4C, gan gynnwys sut mae ei rhaglenni'n cael eu hariannu, eu comisiynu a'u dosbarthu.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am enghreifftiau o gynhyrchion creadigol a'r cyfryngau sy'n cael eu cynhyrchu gan S4C a'u ffigurau gwylio a'u cyrhaeddiad cynulleidfa.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae diwydiannau creadigol a chyfryngau Cymru yn helpu economi Cymru drwy:<br>• ddenu buddsoddiad<br>• creu cyfleoedd gwaith<br>• hyrwyddo diwylliant Cymru yn lleol ac yn rhyngwladol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.2 Gweithio yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

1.2.1 Rolau swydd a'u prif gyfrifoldebau
1.2.2 Cyfleoedd gwaith lefel mynediad ac astudiaethau ôl-16, a ffynonellau cefnogaeth yng Nghymru
1.2.3 Arferion gwaith yn y sector creadigol a'r cyfryngau

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.2.1<br>Rolau swydd a'u cyfrifoldebau allweddol | Dylai dysgwyr wybod am amrywiaeth o rolau swydd o fewn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, a'u cyfrifoldebau allweddol, gan gynnwys:<br>• cynhyrchydd<br>• cyfarwyddwr<br>• golygydd<br>• gweithredydd camera<br>• peiriannydd sain (gan gynnwys artist Foley)<br>• ysgrifennwr<br>• dylunydd graffig<br>• crëwr cynnwys<br>• ffotograffydd<br>• dylunydd gwe<br>• dylunydd gemau<br>• cyflwynydd/perfformiwr/model. |
| 1.2.2<br>Cyfleoedd gwaith lefel mynediad ac astudiaethau ôl-16, a ffynonellau cefnogaeth | Dylai dysgwyr wybod am gyfleoedd gwaith lefel mynediad perthnasol ac astudiaethau ôl-16 o fewn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<br>• cyrsiau creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys y rhai sy'n darparu cymwysterau cyfryngau a ffilm cyffredinol a chymwysterau galwedigaethol, seiliedig ar sgiliau<br>• prentisiaethau<br>• gwirfoddoli/profiad gwaith<br>• swyddi lefel mynediad ac addasrwydd pob llwybr ar gyfer gwahanol unigolion.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am ffynonellau cefnogaeth yng Nghymru sy'n gallu helpu pobl i ddechrau neu ddatblygu gyrfa yn y sector creadigol a'r cyfryngau a deall sut y byddent yn ddefnyddiol i fusnesau newydd a gweithwyr proffesiynol, er enghraifft:<br>• sefydliadau sy'n cefnogi'r sector creadigol a'r cyfryngau yng Nghymru megis Cronfa Creadigol a Sector Llywodraeth Cymru, Cymru Greadigol a Ffilm Cymru Wales<br>• cyfleoedd cyllido megis Cymru Greadigol a Media Cymru<br>• rhaglenni hyfforddi a datblygu, megis Tech Wales a Sgiliau Creadigol Cymru<br>• cefnogaeth ychwanegol megis rhwydweithiau diwydiant a grwpiau sector benodol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 1.2.3<br>Arferion gwaith yn y sector creadigol a'r cyfryngau | Dylai dysgwyr wybod sut mae pobl yn gweithio yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<br>• mathau o gyflogaeth, megis:<br>  • llawn amser<br>  • rhan amser<br>  • llawrydd<br>  • gwaith contract<br>• amodau gweithio, megis:<br>  • gwaith project<br>  • lleoliad<br>  • oriau newidiol<br>  • amgylcheddau gweithio<br>• ymddygiadau proffesiynol a sgiliau trosglwyddadwy, megis:<br>  • cydweithio<br>  • rheoli amser<br>  • proffesiynoldeb<br>  • rheoli perthnasoedd cleientiaid<br>  • parch<br>  • dibynadwyedd<br>  • cyfathrebu effeithiol<br>  • datrys problemau<br>  • creadigrwydd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| 1.3 Ystyriaethau moesegol a rheoleiddiol yn y sector cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 Ystyriaethau moesegol yn y sector creadigol a'r cyfryngau<br>1.3.2 Rheoliadau a chyrff rheoleiddiol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.3.1<br>Ystyriaethau moesegol yn y sector creadigol a'r cyfryngau | Dylai dysgwyr ddeall ystyriaethau moesegol sy'n codi yn y sector creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<br>• parchu preifatrwydd<br>• osgoi niwed<br>• cynrychioliad teg ac amrywiaeth<br>• atal camwybodaeth<br>• cynaliadwyedd. |
| 1.3.2<br>Rheoliadau a chyrff rheoleiddiol | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o reoliadau cyfreithiol allweddol sy'n effeithio ar y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod rôl cyrff rheoleiddiol, gan gynnwys:<br>• Ofcom<br>• Awdurdod Safonau Hysbysebu<br>• BBFC<br>• PEGI<br>• IPSO<br>a deall sut mae cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau yn cael eu rheoleiddio.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r heriau i reoleiddio'r sector creadigol a'r cyfryngau y mae technolegau digidol 'newydd' yn eu cyflwyno<br><br>Dylai dysgwyr wybod:<br>• pam bod cydymffurfio â rheoliadau cyfreithiol a chyrff rheoleiddiol yn bwysig, er enghraifft:<br>  ◦ mae'n sicrhau cystadleuaeth deg<br>  ◦ mae'n cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd<br>  ◦ mae'n diogelu eiddo deallusol<br>• canlyniadau diffyg cydymffurfio, er enghraifft:<br>  ◦ colli trwydded<br>  ◦ difrod i enw da<br>  ◦ dirwyon. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="2">1.4 Datblygiadau yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.4.1 Tueddiadau cyfredol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau<br>1.4.2 Effaith technoleg a deallusrwydd artiffisial ar y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>1.4.1<br>Tueddiadau cyfredol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau</td><td>Dylai dysgwyr ddeall tueddiadau cyfredol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau a'u heffaith, gan gynnwys:<ul><li>mathau o gyfryngau a gwasanaethau</li><li>gwasanaethau ffrydio</li><li>cyfryngau ymdrochol (realiti rhithwir(VR)/realiti estynedig (AR))</li><li>llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol</li><li>cynnwys ar gyfer dyfeisiau symudol yn bennaf</li><li>hysbysebu wedi'i bersonoli</li><li>ymddygiadau cynulleidfaoedd sy'n newid.</li></ul>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o sut mae cwmnïau creadigol a'r cyfryngau yn gwneud dewisiadau i ymateb i ymddygiadau cynulleidfaoedd sy'n newid.</td></tr>
<tr><td>1.4.2<br>Effaith technoleg a deallusrwydd artiffisial ar y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau</td><td>Dylai dysgwyr ddeall sut mae technoleg yn effeithio ar y ffordd y mae cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau yn cael eu:<ul><li>cynhyrchu, gan gynnwys:<ul><li>ffonau clyfar</li><li>meddalwedd golygu</li><li>camerâu digidol a dronau</li></ul></li><li>dosbarthu, gan gynnwys:<ul><li>llwyfannau ffrydio</li><li>llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a chyfranogol</li><li>gwefannau</li><li>apiau.</li></ul></li></ul>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<ul><li>sut mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<ul><li>golygu awtomataidd</li><li>creu cynnwys</li><li>systemau argymell megis ar lwyfannau ffrydio</li><li>dadansoddi data, megis ar gyfer dadansoddi defnydd ac ymddygiadau cynulleidfaoedd</li></ul></li></ul>Dylai dysgwyr ddeall manteision ac anfanteision defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y sectorau creadigol a'r cyfryngau, megis:<ul><li>manteision:<ul><li>cynhyrchu cyflymach a mwy cost effeithiol</li><li>cynhyrchu awtomataidd</li><li>personoli cynnwys</li></ul></li><li>anfanteision:<ul><li>deallusrwydd artiffisial yn cymryd lle gweithwyr dynol</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • gallai arwain at orddibynnu ar dechnoleg<br>• risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch a phreifatrwydd<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau moesegol sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y sectorau creadigol a'r cyfryngau |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau ffilm a chyfryngau digidol proffesiynol, megis ymweld â stiwdios, ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, neu ddosbarthiadau meistr – naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cyfleoedd i archwilio technolegau'r cyfryngau a ffurfiau'r cyfryngau ac i wneud dewisiadau creadigol, adfyfyrio arnynt a'u mireinio
- cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 2 Offer, prosesau a sgiliau rhag-gynhyrchu

| | |
|---|---|
| ODA | 24 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn datblygu gallu dysgwyr i gynllunio a pharatoi projectau creadigol a'r cyfryngau yn effeithiol. Mae'n canolbwyntio ar gynhyrchu syniadau, creu cynigion, a chymhwyso offer a thechnegau rhag-gynhyrchu i fodloni briffiau cleientiaid. Mae dysgwyr yn ennill sgiliau ymarferol mewn trefnu, rheoli projectau, ac addasu cynnwys ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.<br><br>Mae'r uned hon yn hanfodol ar gyfer symud ymlaen mewn gyrfaoedd yn y sector creadigol a'r cyfryngau gan ei bod yn adeiladu'r sylfaen ar gyfer llifoedd gwaith cynhyrchu llwyddiannus. Mae dysgwyr yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis ymchwilio, cynllunio, cyfathrebu a datrys problemau, sy'n hanfodol ar gyfer rolau yn sectorau'r cyfryngau, dylunio a chreu cynnwys.<br><br>Mae cwblhau'r uned hon yn cefnogi symud ymlaen i unedau sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu, astudiaeth bellach, a rolau lefel mynediad yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau. Mae'n sicrhau y gall dysgwyr gynllunio a rheoli projectau'n hyderus, gan fodloni safonau proffesiynol a disgwyliadau cleientiaid. |
| Testunau | 2.1 Prosesau creadigol rhag-gynhyrchu<br>2.2 Offer rhag-gynhyrchu<br>2.3 Mireinio a gwerthuso syniadau |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad 14-awr<br>58 marc<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff cleient penodol a phum tasg. Bydd dysgwyr yn dewis **un** cynnyrch y cyfryngau o ddewis o un ar ddeg |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Bydd angen yr adnoddau canlynol, o leiaf, i gyflawni'r asesiad:<br>• offer recordio fideo, er enghraifft, ffôn symudol, camera fideo<br>• offer recordio sain, er enghraifft, ffôn symudol, microffon, clustffonau<br>• meddalwedd briodol i gynhyrchu dogfennaeth, er enghraifft, Adobe Creative Suite<br>• meddalwedd/rhaglen golygu sain a chlyweledol |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

### 2.1 Prosesau creadigol rhag-gynhyrchu

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.1.1 Cynhyrchu a datblygu syniadau
2.1.2 Creu cynnig ar gyfer y cyfryngau
2.1.3 Pwrpas a chynulleidfa darged cynnyrch penodol y cyfryngau
2.1.4 Rolau swydd a'u cyfrifoldebau allweddol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.1.1<br>Cynhyrchu a datblygu syniadau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• ymchwilio i gynhyrchion creadigol a'r cyfryngau i ddadansoddi sut maent yn targedu cynulleidfaoedd ac yn cyflawni eu pwrpas.<br>• defnyddio ymchwil i gynhyrchu a datblygu syniadau mewn ymateb i friff mewn amrywiaeth o ffurfiau'r cyfryngau, megis:<br>  ◦ clyweledol<br>  ◦ sain<br>  ◦ digidol<br>  ◦ amlfodd<br>  ◦ cyfryngau rhyngweithiol<br>• creu a defnyddio amrywiaeth o offer rhag-gynhyrchu i gyflwyno eu syniadau mewn fformat clir a phriodol, megis:<br>  ◦ amserlen cynhyrchu<br>  ◦ dalen alwad<br>  ◦ dalen gyllideb<br>  ◦ ffurflen rhagchwilio lleoliadau<br>  ◦ sgript<br>  ◦ bwrdd stori<br>  ◦ rhestr saethiadau<br>  ◦ bwrdd naws<br>  ◦ map meddwl<br>  ◦ brasgynlluniau<br>  ◦ dyluniad set<br>  ◦ ffrâm wifren<br>• gwerthuso amrywiaeth o syniadau i ddewis yr un mwyaf priodol, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau megis:<br>  ◦ pwrpas<br>  ◦ cynulleidfa darged<br>  ◦ cyd-destun cryno<br>  ◦ cyllideb. |
| 2.1.2<br>Creu cynnig ar gyfer y cyfryngau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau drafft fel rhan o gynnig cynhyrchu ar gyfer y cyfryngau mewn ymateb i friff, gan gynnwys ystyried:<br>  ◦ gofynion y cleient, gan gynnwys y gynulleidfa darged a phwrpas<br>  ◦ canfyddiadau'r ymchwil.<br>  ◦ ffurf a llwyfan y cyfryngau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | ◦ cynnwys<br>◦ personél a chyfyngiadau cyllidebol<br>• esbonio eu dewisiadau creadigol mewn ymateb i friff, megis:<br>◦ arddull, dyluniad a chynllun<br>◦ lleoliad a dyluniad set<br>◦ cynrychioliadau (megis o unigolion, grwpiau, lleoedd)<br>◦ cynnwys, megis darnau o ffilm glywedol, delweddau a thestun ysgrifenedig<br>◦ sgript. |
| 2.1.3<br>Pwrpas a chynulleidfa darged cynnyrch penodol y cyfryngau | Dylai dysgwyr ddeall cynulleidfaoedd targed gwahanol gynhyrchion creadigol a'r cyfryngau.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• addasu cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau ar gyfer pwrpasau gwahanol<br>• ystyried amrywiaeth o ffactorau demograffig, megis:<br>◦ oedran<br>◦ lleoliad<br>◦ addysg<br>◦ rhywedd<br>◦ incwm<br>a gallu addasu cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau ar gyfer grwpiau demograffig gwahanol<br>• ystyried amrywiaeth o ffactorau seicograffig, megis:<br>◦ ffordd o fyw a diddordebau<br>◦ cefndir diwylliannol<br>◦ arferion defnyddio'r cyfryngau<br>a gallu addasu cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau ar gyfer grwpiau seicograffig gwahanol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• priodoleddau amrywiaeth o lwyfannau'r cyfryngau a ffurfiau'r cyfryngau a'u haddasrwydd o ran bodloni gofynion briff.<br>• manteision ac anfanteision gwahanol lwyfannau'r cyfryngau a ffurfiau'r cyfryngau mewn perthynas â'r canlynol:<br>◦ pwrpas<br>◦ cynulleidfa<br>◦ cyd-destun cryno<br>◦ cyllideb. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 2.1.4<br>Rolau swydd a chyfrifoldebau allweddol mewn rhag-gynhyrchu | Dylai dysgwyr allu nodi'r rolau swydd sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio gwahanol gynhyrchion creadigol a'r cyfryngau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall cyfrifoldebau allweddol amrywiaeth o rolau swydd fel rhan o'r broses rhag-gynhyrchu, megis:<br>• cynhyrchydd<br>• cyfarwyddwr<br>• golygydd<br>• gweithredydd camera<br>• peiriannydd sain (gan gynnwys artist Foley)<br>• ysgrifennwr<br>• dylunydd graffig<br>• crëwr cynnwys<br>• ffotograffydd<br>• dylunydd gwe<br>• dylunydd gemau<br>• cyflwynydd/perfformiwr/model. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="2">2.2 Offer rhag-gynhyrchu</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Offer rhag-gynhyrchu ar gyfer cynllunio a threfnu<br>2.2.2 Offer technegol a meddalwedd a ddefnyddir mewn rhag-gynhyrchu creadigol a'r cyfryngau<br>2.2.3 Rheoli projectau</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>2.2.1<br>Offer rhag-gynhyrchu ar gyfer cynllunio a threfnu</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>swyddogaeth offer rhag-gynhyrchu ar gyfer cynllunio a threfnu projectau creadigol a'r cyfryngau</li><li>sut mae offer rhag-gynhyrchu yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio a threfnu projectau creadigol a'r cyfryngau.</li></ul>Dylai dysgwyr allu dewis a defnyddio offer priodol i gynllunio ar gyfer, a threfnu, cynnyrch creadigol a'r cyfryngau, megis:<ul><li>Storyboarder</li><li>Canva / Miro</li><li>Audacity / Soundtrap / Adobe Audition</li><li>Google Docs / Microsoft Word</li><li>Google Slides / PowerPoint.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2.2.2<br>Offer technegol a meddalwedd a ddefnyddir mewn cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<ul><li>sut mae amrywiaeth o offer technegol yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, megis:<ul><li>ffonau clyfar</li><li>Camerâu DSLR</li><li>offer goleuo</li><li>recordwyr sain</li></ul></li><li>sut mae amrywiaeth o feddalwedd yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, megis:<ul><li>dylunwyr gwe</li><li>meddalwedd ac apiau golygu</li><li>meddalwedd animeiddio</li><li>meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>2.2.3<br>Rheoli projectau</td><td>Dylai dysgwyr ddeall agweddau ar reoli projectau mewn rhag-gynhyrchu a gallu cymhwyso'r rhain wrth gynllunio project creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys:<ul><li>llinell amser – gan gynnwys cerrig milltir rhag-gynhyrchu, cynhyrchu, ôl-gynhyrchu a rhyddhau</li><li>cyllideb – megis ar gyfer staff, offer, talent, propiau, gwisgoedd, lleoliadau, meddalwedd, trwyddedu, ôl-gynhyrchu a marchnata a dosbarthu</li><li>adnoddau – megis, personél ac offer</li><li>iechyd a diogelwch – gan gynnwys asesu risg a chynllunio wrth gefn</li><li>ystyriaethau cyfreithiol a moesegol – gan gynnwys hawlfraint, diogelu data, caniatâd, trwyddedau, cynrychioliad, cydsynio a phreifatrwydd a chywirdeb cynnwys.</li></ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| 2.3 Mireinio a gwerthuso syniadau | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.3.1 Mireinio a gwerthuso syniadau | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 2.3.1<br>Mireinio a gwerthuso syniadau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• mireinio eu syniadau creadigol drwy ymgorffori adborth i wneud gwelliannau, megis<br>  • adborth grwpiau ffocws<br>  • adborth cyfoedion<br>  • hunanwerthuso<br>• dadansoddi cryfderau a gwendidau eu syniadau creadigol mewn perthynas â gofynion briff, gan gynnwys:<br>  • effeithiolrwydd syniad o ran sut mae'n bodloni gofynion y briff<br>  • addasrwydd ar gyfer cynulleidfa darged<br>  • cryfderau deunyddiau rhag-gynhyrchu<br>  • meysydd i'w gwella deunyddiau rhag-gynhyrchu<br>  • sut y gellid datblygu syniad ymhellach ar gyfer cynhyrchu. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg proffesiynol, megis ymweld â stiwdios, ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, neu ddosbarthiadau meistr – naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cyfleoedd i archwilio technolegau'r cyfryngau a ffurfiau'r cyfryngau ac i wneud dewisiadau creadigol, adfyfyrio arnynt a'u mireinio
- cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 3 Offer, prosesau a sgiliau cynhyrchu a rhag-gynhyrchu

| | |
|---|---|
| ODA | 72 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i gymhwyso sgiliau creadigol, technegol a chynhyrchu i gynhyrchu cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau. Mae'n canolbwyntio ar ddogfennu prosesau, rheoli adnoddau, a mireinio allbynnau drwy adborth a gwerthuso, gan sicrhau y gall dysgwyr gyflwyno cynnwys y cyfryngau amlfodd o ansawdd uchel.<br><br>Mae'r uned hon yn hanfodol ar gyfer symud ymlaen i rolau creadigol a'r cyfryngau gan ei bod yn datblygu sgiliau cynhyrchu ymarferol ac arferion gwaith proffesiynol. Mae dysgwyr yn ennill profiad o reoli projectau o'r cysyniad i'r cwblhau, gan eu paratoi ar gyfer cyflogaeth neu astudiaeth bellach mewn cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau.<br><br>Mae cwblhau'r uned hon yn cyflwyno profiad ymarferol a sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach neu rolau lefel mynediad yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau. Mae'n sicrhau ymwybyddiaeth o amgylcheddau proffesiynol lle mae cynllunio, gweithredu technegol a rheoli ansawdd yn hanfodol. |
| Testunau | 3.1 Cymhwyso prosesau cynhyrchu a chreadigol<br>3.2 Creu cynhyrchion y cyfryngau<br>3.3 Mireinio cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad gydag amser argymelledig o 32 awr i'w gwblhau.<br>90 marc<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff cynhyrchu penodol a thair tasg. Bydd dysgwyr yn dewis **un** digwyddiad o ddewis o dri a byddant bob amser yn cynhyrchu ymgyrch hyrwyddo amlfodd ar gyfer y digwyddiad a ddewisir.<br>Rhaid i'r ymgyrch hyrwyddo gynnwys **un** elfen glyweledol/sain a **naill ai un** elfen ryngweithiol **neu un** elfen ddylunio graffig/gyhoeddi. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Bydd angen yr adnoddau canlynol, o leiaf, i gyflawni'r asesiad:<br>• offer recordio fideo, er enghraifft, ffôn symudol, camera fideo<br>• offer recordio sain, er enghraifft, ffôn symudol, microffon, clustffonau<br>• meddalwedd briodol i gynhyrchu dogfennaeth, er enghraifft, Adobe Creative Suite<br>• meddalwedd/rhaglen golygu sain a chlyweledol |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

<table>
<tr><th colspan="2">3.1 Cymhwyso prosesau cynhyrchu a chreadigol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 Dogfennu a chymhwyso prosesau creadigol, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu<br>3.1.2 Adolygu ac adfyfyrio ar y prosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>3.1.1<br>Dogfennu a chymhwyso prosesau creadigol, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
<ul>
<li>dogfennu a dilyn prosesau a ddefnyddir mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu creadigol a'r cyfryngau.</li>
<li>cadw dyddlyfr cynhyrchu i gofnodi:
<ul>
<li>gwneud penderfyniadau a phrosesau creadigol</li>
<li>dilyn prosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu</li>
<li>dod o hyd i, trefnu a rheoli adnoddau, megis:
<ul>
<li>cast neu fodelau</li>
<li>criw</li>
<li>offer</li>
<li>caledwedd</li>
<li>meddalwedd</li>
</ul></li>
<li>rheoli amser a therfynau amser</li>
<li>gweithio'n annibynnol</li>
<li>gweithio gydag eraill (lle bo'n berthnasol, er enghraifft fel aelod o griw)</li>
<li>parchu hawlfraint a gwaith creadigol eraill</li>
<li>cydymffurfio ag ystyriaethau cyfreithiol a moesegol</li>
<li>defnyddio dogfennaeth briodol i ddilyn prosesau cynhyrchu, megis:
<ul>
<li>amserlen cynhyrchu</li>
<li>dalenni galwadau</li>
<li>cofnodion rhagchwilio</li>
<li>asesiadau risg</li>
<li>datganiadau tystion</li>
<li>recordiadau sain</li>
<li>recordiadau fideo</li>
<li>saethiadau profi.</li>
</ul></li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
<tr><td>3.1.2<br>Adolygu ac adfyfyrio ar brosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
<ul>
<li>adolygu ac adfyfyrio ar ddatblygiad eu gwaith eu hunain i nodi meysydd i'w mireinio</li>
<li>adolygu'r gwaith sydd ganddynt ar y gweill i nodi meysydd i'w mireinio, er enghraifft:
<ul>
<li>adolygu drafftiau/brasdoriadau/brasgynlluniau ac ati</li>
<li>prawfddarllen</li>
<li>gwirio</li>
<li>profi</li>
</ul></li>
<li>defnyddio adborth ar y gwaith sydd ganddynt ar y gweill i nodi meysydd i'w mireinio, er enghraifft:
<ul>
<li>arolygon</li>
<li>grwpiau ffocws</li>
<li>adborth cyfoedion</li>
<li>adborth y gynulleidfa</li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • adborth cleientiaid<br>• adborth athrawon<br>• cymharu'r gwaith sydd ganddynt ar y gweill â chynhyrchion eraill y cyfryngau i nodi meysydd i'w mireinio, er enghraifft:<br>• cynhyrchion y cyfryngau sydd â phwrpas tebyg<br>• cynhyrchion y cyfryngau sydd â chyd-destun tebyg<br>• cynhyrchion y cyfryngau sydd â chynulleidfa darged debyg<br>• cynhyrchion y cyfryngau sy'n defnyddio technegau creadigol tebyg. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="2">3.2 Creu cynhyrchion y cyfryngau</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1 Gwneud dewisiadau er mwyn creu cynhyrchiad y cyfryngau sy'n briodol i gynulleidfa, pwrpas a chyd-destun penodol<br>3.2.2 Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu clyweledol<br>3.2.3 Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain<br>3.2.4 Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu dylunio graffig/cyhoeddi<br>3.2.5 Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>3.2.1<br>Gwneud dewisiadau i greu cynhyrchiad y cyfryngau sy'n briodol i gynulleidfa, pwrpas a chyd-destun penodol</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• gwneud dewisiadau ynghylch technegau creadigol sy'n briodol i'r:<br>  • gynulleidfa darged<br>  • pwrpas<br>  • cyd-destun<br>• gwneud dewisiadau ynghylch technegau creadigol i gyfleu i gynulleidfa:<br>  • creu ystyron neu negeseuon<br>  • creu arddulliau neu awyrgylchoedd<br>  • creu effeithiau.<br><br>Dylai dysgwyr allu cynhyrchu canlyniadau clyweledol neu sain a dylunio graffig/cyhoeddi neu gyfryngau rhyngweithiol mewn ymateb i friff.</td></tr>
<tr><td>3.2.2<br>Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu clyweledol</td><td>Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn cynhyrchu clyweledol, megis:<br>• camera, er enghraifft:<br>  • math o saethiad<br>  • fframio a chyfansoddiad<br>  • ffocws<br>• goleuo, er enghraifft:<br>  • safle<br>  • naturiol/artiffisial<br>  • effeithiau<br>• animeiddio, er enghraifft:<br>  • stop-ffrâm<br>  • cellwloid<br>  • Animeiddio clai.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn ôl-gynhyrchu clyweledol, er enghraifft:<br>• golygu delweddau<br>• pontio<br>• effeithiau.</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 3.2.3<br>Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain | Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn cynhyrchu sain, megis:<br>• cynhyrchu sain, er enghraifft:<br>    • sain fyw<br>    • effeithiau sain<br>    • deialog<br>• recordio sain, er enghraifft:<br>    • defnyddio offer recordio<br>    • defnyddio, lleoliad, a math o lefelau sain a gwiriadau microffonau<br>    • ansawdd y sain.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn ôl-gynhyrchu sain, er enghraifft:<br>• golygu sain<br>• torri/trimio<br>• haenu |
| 3.2.4<br>Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu dylunio graffig/cyhoeddi | Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn cynhyrchu dylunio graffig/cyhoeddi, megis:<br>• ffotograffiaeth, er enghraifft:<br>    • cyfansoddiad<br>    • safbwynt<br>    • goleuo<br>• testun, er enghraifft:<br>    • iaith ysgrifenedig (er enghraifft, arddull, cywair, geirfa)<br>    • teipograffeg (er enghraifft, arddull ffont)<br>• cynllun a dyluniad, er enghraifft:<br>    • cyfansoddiad<br>    • colofnau ac ymylon<br>    • defnyddio gofod gwyn.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn ôl-gynhyrchu dylunio graffig/cyhoeddi, er enghraifft:<br>• trin delweddau, megis:<br>    • haenau<br>    • addasiadau<br>    • hidlyddion<br>    • effeithiau<br>• mathau o ffeiliau<br>• cydraniad<br>• fformatau<br>• allgludo deunydd. |
| 3.2.5<br>Cymhwyso technegau creadigol a sgiliau technegol mewn | Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol, megis:<br>• amlgyfrwng, er enghraifft:<br>    • delweddau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol |     • cyfuniad o ddelweddau<br>    • delweddau symudol<br>• cyfryngau rhyngweithiol, er enghraifft:<br>    • dewislenni<br>    • bar llywio<br>    • sgrolio<br>• ffotograffiaeth, er enghraifft:<br>    • cyfansoddiad<br>    • safbwynt<br>    • goleuo<br>• testun, er enghraifft:<br>    • iaith ysgrifenedig (er enghraifft, arddull, cywair, geirfa)<br>    • teipograffeg (er enghraifft, ffont, arddull)<br>• cynllun a dyluniad, er enghraifft:<br>    • cyfansoddiad<br>    • gridiau<br>    • defnyddio gofod gwyn.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o sgiliau technegol a thechnegau creadigol mewn ôl-gynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol, er enghraifft:<br>• trin delweddau, megis:<br>    • haenau<br>    • addasiadau<br>    • hidlyddion<br>    • effeithiau<br>• mathau o ffeiliau<br>• cydraniad<br>• fformatau<br>• allgludo deunydd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| 3.3 Mireinio cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1 Mireinio cynnyrch creadigol a'r cyfryngau | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.3.1<br>Mireinio cynnyrch creadigol a'r cyfryngau | Dylai dysgwyr allu adfyfyrio ar y gwaith sydd ganddynt ar y gweill, gan ystyried cyfleoedd i fireinio a gwella eu canlyniadau.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio cynhyrchion y cyfryngau presennol i gefnogi adolygiad o'u gwaith eu hunain, gan gymharu agweddau megis:<br>• defnyddio confensiynau genre<br>• targedu cynulleidfa<br>• pwrpas<br>• sgiliau technegol a chreadigol.<br><br>Dylai dysgwyr allu mireinio cynnyrch creadigol a'r cyfryngau yn ystod y prosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, megis drwy:<br>• gynhyrchu deunydd newydd<br>• ailddatblygu/ail-weithio deunydd presennol<br>• golygu deunydd presennol. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg proffesiynol, megis ymweld â stiwdios, ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, neu ddosbarthiadau meistr – naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cyfleoedd i archwilio technolegau'r cyfryngau a ffurfiau'r cyfryngau ac i wneud dewisiadau creadigol, adfyfyrio arnynt a'u mireinio
- cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3. Asesu

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r cymhwyster hwn wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

### AA1
Ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg

### AA2
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg

### AA3
Dehongli a gwerthuso canlyniadau gwaith eu hunain a/neu waith eraill i archwilio a/neu fireinio syniadau creadigol neu gynhyrchion y cyfryngau

### AA4
Dangos sgiliau ymarferol drwy gymhwyso offer creadigol, prosesau cynhyrchu a thechnoleg er mwyn:
- datblygu syniadau creadigol
- datblygu cynhyrchion y cyfryngau

ar gyfer cyd-destunau a ffurfiau penodol y cyfryngau.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | - | - | 20% |
| Uned 2 | - | - | 9% | 11% | 20% |
| Uned 3 | - | - | 12% | 48% | 60% |
| Pwysoliad cyffredinol | **10%** | **10%** | **21%** | **59%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3.2. Trosolwg o'r asesu

## Uned 1

Asesir yr uned hon drwy brawf sector sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol a fydd ar gael yng nghyfres mis Ionawr a chyfres yr haf. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau prawf sector byr, un awr, sydd wedi'i gynllunio i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol (AA1 ac AA2 yn unig).

Bydd y prawf yn cael ei farcio allan o 50 a bydd ganddo ddwy adran gwerth 25 marc yr un. Mae Adran A yn cwmpasu AA1 a bydd yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, megis cwestiynau dewis lluosog, ymateb lluosog, llenwi'r bwlch, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth. Mae Adran B yn cwmpasu AA2 ac yn cynnwys cwestiynau ateb byr, y gallai rhai ohonynt fod yn seiliedig ar senarios byr o'r diwydiant.

Rhaid i'r prawf gael ei gymryd o dan amodau arholiad a oruchwylir yn unol â gofynion y CGC (gweler http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations).

Bydd yr asesiad cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2028. Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer fersiwn copi caled neu ar y sgrin o'r prawf.

Mae'r prawf hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster ac mae'n cael ei osod a'i farcio'n allanol gan CBAC.

## Uned 2

Asesir yr uned hon drwy asesiad di-arholiad sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau drwy'r Porth yn ystod wythnos gyntaf mis Medi 2027 a bydd yn fyw am dair blynedd academaidd. Yna bydd briff newydd yn cael ei ryddhau bob tair blynedd academaidd. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio'r fersiwn gywir o'r asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar y Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd 14 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 58 marc.

Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio neu wedi'u cwblhau'n ddigidol.

## Uned 3

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau drwy'r Porth ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y cymhwyster. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd tua 32 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 90 marc.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio neu wedi'u cwblhau'n electronig.

## 3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at yr egwyddorion a nodir yn nogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol) a'r CGC Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau. Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

### Gosod tasgau

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

## Gwneud Tasgau

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan ddau gam:

- y cam ymchwil
- cam yr Asesiad Di-arholiad.

Efallai y gofynnir i ddysgwyr gynnal ymchwil fel rhan o'r cam ymchwil, gellir dod o hyd i wybodaeth am y cam ymchwil gan gynnwys dull ymchwil a chyfeirio, yn y pecyn asesu.

Yn ystod cam yr asesiad di-arholiad gellir dod o hyd i wybodaeth am yr amodau asesu, wedi'u categoreiddio fel uchel, canolig ac isel yn y pecyn asesu. Gellir hefyd dod i hyd i wybodaeth am adnoddau, wedi'u categoreiddio fel dim, penodol, ac wedi'u caniatáu yn y pecyn asesu.

Mae rhagor o wybodaeth am y cam ymchwil a cham yr asesiad di-arholiad, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ar gael yng Nghanllaw i Athrawon CBAC Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 a Chanllaw i Ymgeiswyr Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16.

Mae ystyriaethau eraill wrth wneud tasgau, yn cynnwys:

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael; rhoddir amser awgrymedig ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol
- Goruchwylio a dilysu: Mae'r pecyn asesu yn nodi'r gofynion goruchwylio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd dysgwyr yn cael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

## Marcio Tasgau

Ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u marcio gan ganolfannau

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr i ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.5. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau camymddwyn CBAC. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4.Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestriadau unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r gwanwyn a'r haf ar gyfer Uned 1 ac uned 2 a chyfnod asesu'r haf ar gyfer Uned 3 bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael ym mis Ionawr 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny). Bydd Uned 3 ar gael yn haf 2029 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Asesiad allanol (prawf sector) | | |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad allanol | | |
| Uned 3 | Asesiad di-arholiad | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod Cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 4.3. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TAAU a'r unedau maen nhw'n eu cynnwys yn cael eu hadrodd ar raddfa chwe phwynt: Lefel 2 Rhagoriaeth* (L2RH*) Lefel 2 Rhagoriaeth (L2RH), Lefel 2 Teilyngdod (L2T), Lefel 2 Llwyddiant (L2LL), Lefel 1 Teilyngdod (L1T), Lefel 1 Llwyddiant (L1LL).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw’n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| Uned 2 | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| Uned 3 | 240 | 216 | 192 | 168 | 144 | 120 | 96 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 400 | 360 | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau unedau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) am y pedwerydd tro neu asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar bob asesiad wedi'i farcio gan CBAC a hyd at ddau gynnig ar bob asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

DRAFT

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.3, 2.3.1 | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.1, 3.3.1 |
| Cynaliadwyedd | 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.3.1, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.2.3 | 3.2.1 |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.3, 2.2.3 | 3.2.1 |
| Addysg Hawliau Dynol | 1.1.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.2 | 2.1.3, 2.2.3 | |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | 1.1.1, 1.1.2, 1.2.1, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | 3.1.1, 2.1.2, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Darllen | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Siarad | Pob adran | Pob adran | Pob adran |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | 1.1.2, 1.1.3, 1.2.2, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3 | 3.1.1, 3.2.2, 3.2.4, 3.2.5 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.1.2, 1.1.3, 1.4.1 | 2.1.2, 2.2.3 | 3.2.4, 3.2.5 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | 2.2.1, 2.2.2 | 3.2.2, 3.2.4, 3.2.5 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | 1.1.2, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.2, 2.2.3 | 3.1.1 |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3 | 3.1.1, 3.2.1 |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.1.2 | 2.3.1 | 3.1.1, 3.1.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchu | | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1 | Pob adran |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2 | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.1, 3.2.5 |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | 1.1.3, 1.4.1 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1 | Pob adran |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1.2, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | Pob adran |
| Cynllunio a Threfnu | | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.3 | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1 |
| Effeithiolrwydd Personol | 1.1.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | Pob adran |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad B: Isafswm yr adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r cymhwyster

Bydd angen yr adnoddau canlynol, o leiaf, er mwyn gallu cyflwyno'r cymhwyster:

- offer recordio fideo, er enghraifft, ffôn symudol, camera fideo
- offer recordio sain, er enghraifft, ffôn symudol, microffon, clustffonau
- meddalwedd briodol i gynhyrchu dogfennaeth, er enghraifft, Adobe Creative Suite
- meddalwedd/rhaglen golygu sain a chlyweledol

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.